# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 18 Mawrth 2003

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Ymrwymiadau'r Llywodraeth Heb eu Cyflawni

**C9 Elin Jones:** Pa drafodaethau a gawsoch gyda'ch cydweithwyr yn y Cabinet am yr ymrwymiadau y bydd yn rhaid i'ch Llywodraeth eu cyflawni erbyn diwedd tymor presennol y Cynulliad? (OAQ23284)
***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Cefais nifer o drafodaethau gyda'm cyd-Aelodau ynglŷn ag ymrwymiadau'r Llywodraeth, a amlygwyd yn 'Cynllun i Gymru 2001'.

*Atebwyd cwestiwn 10 (OAQ23319) yn y Cyfarfod Llawn.*

### Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol (Ceisiadau am Iawndal)

**C11 William Graham:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y cyfarwyddyd y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei roi i awdurdodau lleol i'w helpu i leihau nifer y ceisiadau am iawndal yn eu herbyn? (OAQ23315) [R]

**Y Prif Weinidog:** Mater i awdurodau lleol eu hunain yw asesu'r tebygrwydd o geisiadau am iawndal yn eu herbyn ac i roi trefniadau ar waith i ddelio ag achosion o'r fath.

### Blaenoriaethau Polisi ar gyfer y Gogledd

**C12 Janet Ryder:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar flaenoriaethau polisi ei Lywodraeth ar gyfer gogledd Cymru yn ystod y mis nesaf? (OAQ23274)

**Y Prif Weinidog:** Mae blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u tanlinellu yn 'Cynllun i Gymru 2001'—gwella gwasanaethau cyhoeddus yn barhaus, mynd i'r afael ag allgàu cymdeithasol a hybu datblygu cynaliadwy. Darperir y rhain yng ngogledd Cymru yn unol ag anghenion ardaloedd lleol.

Er enghraifft, bydd gogledd Cymru yn elwa ar £16.5 miliwn o grant trafnidiaeth dros y flwyddyn ariannol nesaf, gan ddechrau ym mis Ebrill, ar gyfer amrediad o brosiectau, gan gynnwys gwella gwasanaethau bysiau, gwell adnoddau i gerddwyr a beicwyr, a rhai gwelliannau ffyrdd mawr.

### Yr Hyn a Gyflawnwyd yn Sir Drefaldwyn

**C13 Mick Bates:** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i gyflawni yn Sir Drefaldwyn ers sefydlu'r Llywodraeth bartneriaeth? (OAQ23343)

**Y Prif Weinidog:** Ers sefydlu'r Llywodraeth bartneriaeth, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflawni'i ymrwymiadau yn 'Cynllun i Gymru 2001'. Mae hyn wedi dod â manteision i Sir Drefaldwyn ac i Gymru gyfan. Er enghraifft, mae diweithdra wedi gostwng bron 40 y cant yn Sir Drefaldwyn, sy'n cymharu'n dda â'r gostyngiad dros Gymru gyfan o dros 30 y cant.

**Annog Mwy o Bobl i Bleidleisio (Etholiadau'r Cynulliad)**

**C14 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar rôl ei Lywodraeth o ran sicrhau bod mwy o bobl yn pleidleisio yn etholiadau nesaf y Cynulliad? (OAQ23275)

**Y Prif Weinidog:** Mae'r Cynulliad yn gweithio'n agos gyda'r Comisiwn Etholiadol, sydd â'r prif gyfrifoldeb dros hybu ymwybyddiaeth yr etholwyr ar gyfer pob etholiad. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cymryd camau eisoes i hybu cyfranogiad pleidleiswyr ar gyfer yr etholiadau ar 1 Mai drwy gyflwyno cynllun i gynorthwyo awdurdodau lleol gydag ariannu rampiau i fythau pleidleisio, a thrwy drafod gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i annog awdurdodau lleol i hyrwyddo cofrestru treiglol a phleidleisio drwy'r post.

**Effaith Polisïau Trafnidiaeth y Llywodraeth**

**C15 Geraint Davies:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar sut y mae polisïau trafnidiaeth ei Lywodraeth wedi effeithio ar bobl Cymoedd y De? (OAQ23283)

**Y Prif Weinidog:** Mae rhaglen fuddsoddi fawr ar y gweill yn barod ac mae mwy ohonynt wedi'u cynllunio dros y pum mlynedd nesaf mewn datblygiadau ffyrdd a thrafnidiaeth integredig,. Mae'r rhain yn cynnwys llunio ffordd osgoi'r Cwm, ffordd liniaru Porth Rhondda Fach Isaf, cynllun adfywio Bargoed a gwelliannau rheiffyrdd mawr ar reilffyrdd y Cymoedd ac yn cynnwys mynediad i ac o orsaf Heol y Frenhines, ynghyd ag ailagor rheilffordd glyn Ebwy. Gyda'i gilydd, bydd y rhain yn gwella mynediad i gymunedau'r cymoedd ac yn darparu gwell trafnidiaeth gyhoeddus. Bydd argaeledd teithio am ddim ar fysiau lleol i bensiynwyr a phobl anabl hefyd yn darparu gwell cyfleoedd i deithio ac yn gwella ansawdd bywyd.